

*CaBan*

Llawlyfr y Modiwl  
XCC-1210  
BA Blwyddyn 1  
Profiad Ysgol

Mae profiad ysgol yn rhan hanfodol o holl gyrsiau addysg gychwynol athrawon. Mae'r modiwl hwn yn gyfle i chi arsylwi dysgwyr ac athrawon yn yr ysgol, rhoi cynnig ar syniadau a phrofiadau proffesiynol newydd ac, yn bwysicaf oll, adfyfrio ar eich ymarfer eich hun a'i wella.

### Trosolwg

Bydd y modiwl hwn yn eich galluogi i gwblhau'r pedwar cam cyntaf o wyth o'ch datblygiad fel Athrawon Cyswllt (AC). **Bydd y camau hyn yn digwydd yn y cyfnod sylfaen** ac yna byddwch yn mynd i leoliad cyn-ysgol ym mis Mai. Cewch eich rhoi mewn parau mewn ysgolion rhwydwaith ac o bosib y bydd ysgolion mwy o faint yn dymuno darparu ar gyfer mwy nag un pâr o AC.

Bydd pob cam o'r profiad ysgol yn ddeg diwrnod o hyd. Byddwch yn treulio'r cyntaf yn yr ysgol arweiniol a'r olaf yn yr SAU. Bydd hyn yn eich galluogi i ddod ynghyd i fyfrio ar ddysgu mewn amrywiaeth o ysgolion gwahanol a chymharu profiadau.

Ar y diwrnod cyntaf (yn yr ysgol arweiniol) bydd cysylltiad agos bob amser â'r darlithoedd a'r gweithdai y buoch iddynt o'r blaen yn yr SAU (bydd y cysylltiadau hynny'n eglur yn nogfen derfynol y modiwl) yn ogystal â'r profiad ysgol blaenorol. Yn ogystal, bydd Mentoriaid Arweiniol y Rhwydwaith yn modelu ymddygiadau ac yn rhannu disgwyliadau ar gyfer diwrnodau ysgol y rhwydwaith. Mi wnaiff hynny sicrhau eich bod yn ystyried eich lleoliadau ysgol fel profiad parhaus yn hytrach na blociau ar wahân

### Amcanion a phwrpas cyffredinol

Bydd y modiwl yn dechrau datblygu eich sgiliau proffesiynol gan baratoi ac integreiddio sgiliau ac addysgeg drwy gyfnodau cynyddol o brofiadau addysgu. Caiff strwythur y modiwl ei lywio gan y Meini Prawf sy'n ymwneud ag Achredu Rhaglenni Addysg Gychwynol Athrawon yng Nghymru (Addysgu Athrawon Yfory) a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth i Gymru. Drwy bartneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol a'r SAU, bydd y modiwl yn:

- rhoi cefnogaeth i chi ddatblygu amryw o sgiliau (gan gynnwys eich gwybodaeth o'r Gymraeg i hyrwyddo 'Cymraeg Pob Dydd') ac ymarfer adfyfiriol i fodloni gofynion y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (SPAA) i ddod yn athro cymwysedig a chyfrannu at y gymuned ddysgu.
- sicrhau eich bod yn deall sut mae cymhwyso gwybodaeth ac ymarfer adfyfiriol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i'r dysgwyr;
- rhoi cefnogaeth i chi adnabod ystod eang o dechnegau er mwy adfyfrio'n feirniadol ynghylch eich datblygiad proffesiynol eich hun ac ymdoddi i amgylchedd yr ysgol;

### Cynnwys y Modiwl

Byddwch yn treulio 40 diwrnod mewn ysgol a lleoliad meithrin i ddechrau dysgu sut mae dod yn ymarferwyr trwy'r profiadau a enillwch mewn ysgolion arweiniol ac ysgolion rhwydwaith, Bydd hynny'n cynnwys:

- digwyddiadau addysgu ac adolygu wythnosol mewn clwstwr
- arsylwadau a datblygiad cynnar
- ymchwil agos at ymarfer (ymchwiliadau ar raddfa fach)
- integreiddio i'r amgylchedd addysgu
- mentora a hunan-adfyfrio

Bydd seminarau a gweithgareddau yn ystod diwrnodau'r Ysgol Arweiniol a'r SAU yn cysylltu'n agos â chynnwys XCC1211, XCC 1212, XCB1213, XCC1214, XCC1215

## **Asesu**

Yn ystod y modiwl byddwch yn adfyfrio'n barhaus ar eich cynnydd gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor ac yn uwchlwytho'r dystiolaeth berthnasol i'r Pasbort Dysgu Personol. Ar ddiwedd y modiwl, byddwch yn dangos eich bod wedi gwneud cynnydd boddhaol yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (SPAA). Yn achos y modiwl hwn, caiff pasio neu fethu ei gofnodi yn y bwrdd arholi gan ddefnyddio'r SPAA. Mae'r holl fanylion asesu yn erbyn y SPAA wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Asesu SPAA ac mae manylion ynghylch sut mae defnyddio'r Pasbort Dysgu Personol (PDP) ar gael ar-lein.

## **Deilliannau dysgu**

*Byddwch yn:*

- Dechrau cofnodi a gweithredu strategaethau ymchwil gweithredol addas
- Esbonio'n glir bwysigrwydd amgylchedd dysgu pwrpasol a chadarnhaol sy'n cefnogi anghenion pob dysgwr.
- Gallu gwerthuso eich ymarfer proffesiynol eich hun a dechrau dangos y gallu i gydweithio a sefydlu perthynas broffesiynol gyda mentoriaid/tiwtoriaid yn sail ar gyfer datblygu'n annibynnol
- Disgrifio amrywiaeth o dechnegau i adlewyrchu a mireinio eich ymarfer fel ymarferydd dosbarth a'ch rôl yn y gymuned ddysgu
- Gwerthuso cyfleoedd addas i ddysgwyr ddatblygu sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm.
- Dangos eich bod yn gwneud cynnydd personol boddhaol yn ôl y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Nodi amrywiaeth o sgiliau cynllunio i sefydlu amgylchedd dysgu trefnus sy'n hyrwyddo dibenion y cwricwlwm ehangach/themâu trawsgwricwlaidd ac astudio sy'n seiliedig ar bwnc.

## **Cymraeg Pob Dydd a'r Cwricwlwm Cymreig**

Yn ystod y profiad ysgol, bydd dwy seminar ysgol a gweithgareddau cysylltiedig a fydd yn eich galluogi i nodi a chyflwyno ystod o sefyllfaoedd anffurfiol sylfaenol i hyrwyddo'r defnydd o *Gymraeg Pob Dydd* ar draws y cwricwlwm. Byddwch hefyd yn dechrau cynnwys prif bum agwedd y Cwricwlwm Cymreig mewn pynciau a Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yn eich gwersi

## **Cyflwyno ac ymchwil yn gefn iddo ac addysgu sy'n seiliedig ar ymchwil**

Mae dysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd ag ymchwil yn gefn iddo'n sail i gynnwys a chyflwyniad y modiwl hwn a chaiff ei gyflwyno mewn ffordd sy'n cyfleu sut y cyfunir theori ac ymarfer. Yn y modiwl hwn byddwn yn cyflwyno ac yn disgrifio cryfderau a gwendidau tystiolaeth yn yr ymarfer diweddaraf sy'n seiliedig ar theori a thystiolaeth sy'n sail i'r addysgeg a'r arferion dosbarth a gaiff eu cwmpasu. Bydd cynnwys a chyflwyniad y modiwl yn eich cyflwyno i bwysigrwydd datblygu eich gallu i fod yn ddefnyddwyr ac yn gynhyrchwyr ymchwil a datblygu eich gwybodaeth o'r sbectwm ymchwil sy'n llywio ymarfer addysgu yn ogystal ag arsylwi fel dull casglu data

## **Arsylwi ac adfyfrio**

Yn ogystal â'r cyflwyniad cychwynnol i addysgu effeithiol, bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddwy sgil ymchwil hanfodol i ymarferwyr: arsylwi ac adfyfrio. Byddwch yn defnyddio'r cwestiynau hyn i lunio eich adfyfyrdod ar eich ymarfer eich hun yn ogystal â'ch arsylwadau o eraill:


- *Beth wnaeth y disgyblion mewn gwirionedd?*
- *Beth oeddent yn ei ddysgu?*
- *Pa mor fuddiol oedd hynny?*
- *Beth wnes i? (Beth wnaeth yr athro/athrawes?)*
- *Beth wnes i ei ddysgu?*

- *Beth ydw i'n bwriadu ei wneud nesaf?*

(Ebbutt, 1985, in Hopkins, D., 2014. *A teacher's guide to classroom research*. London, UK: McGraw-Hill Education).

Yr ail offeryn dadansoddol a ddefnyddir i ddadansoddi cyd-destun cymhleth ymarfer dosbarth fydd y Craidd Cyfarwyddol (City, E.A., Elmore, R.F., Fiarman, S.E. and Teitel, L., 2009. *Instructional rounds in education*. Cambridge, MA: Harvard Education Press.

[http://www.macombfsi.net/uploads/1/5/4/4/1544586/instructional\\_rounds\\_-\\_principles.pdf](http://www.macombfsi.net/uploads/1/5/4/4/1544586/instructional_rounds_-_principles.pdf)



Ffig. 2 Y Craidd Cyfarwyddol (ar sail City et al, 2009 t23)

### Y Dyddlyfr Proffesiynol

Trwy gydol y modiwl cewch lawer o gyfleoedd i arsylwi, ymarfer ac adfyfrio. Byddwch yn cadw nodiadau ymchwil mewn dyddlyfr proffesiynol sydd wedi'i lunio i gefnogi'ch cynnydd fel AC newydd.

### Astudiaeth Gwers

Yng Ngham 3, bydd y mentor yn cynllunio ac yn dysgu gwers ac yn rhannu gyda chi'r rhesymeg dros y cynllunio. Yna byddwch chi'n arsylwi ar y wers ac yn olaf byddwch eich dau'n adolygu'r wers gyda'ch gilydd.

Dyma dri cham cyntaf Astudiaeth Gwers (Cajkler et al., 2013), sef methodoleg ymchwil y byddwch yn ei defnyddio eto ym modiwlau Profiad Ysgol yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Cajkler, W., Wood, P., Norton, J. and Pedder, D., 2013. Lesson study: towards a collaborative approach to learning in initial teacher education. *Cambridge Journal of Education*, 43(4), pp.537-554.

### Cyfrifoldebau Proffesiynol

- Yn ystod yr wyth wythnos yn yr ysgol, dylech gwblhau'r gweithgareddau canlynol:
- Gwrandewch ar ddysgwyr yn darllen a'u cefnogi lle bo'n briodol ac o dan gyfarwyddyd y mentor
- Mynd gydag athro ar ddyletswydd iard un diwrnod yr wythnos.
- Cynorthwyo gyda dyletswyddau gweinyddol y dosbarth o dan arweiniad y mentor
- Paratoi arddangosfa o waith y plant

### Y Gofynion Cyfreithiol

- Cael copi o bolisi'r ysgol ar Amddiffyn Plant, Gwrth-fwlio, Disgyblaeth ac Atal (gall hwnnw fod yn gopi electronig neu'n gopi caled).
- Sicrhau eich bod yn llenwi'r dudalen diogelu plant ar gyfer yr ysgol arweiniol a'r ysgol rwydwaith yn eich dyddlyfr proffesiynol.
- Darllen a deall Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar-lein cyn i'r lleoliad ddechrau.

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga.html>

## Wyth Cam Datblygiad AC Caban

*Mae i bob cam batrwm tebyg:*

### Cam 1

*Ffocws:* Dechrau deall sut mae cynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau ac ar wahanol gamau datblygu (datblygiad cyfannol) - mae'n cefnogi'r asesu

*Asesiadau Cysylltiedig:* **Traethawd Astudiaethau Craidd** - cysylltu arsylwadau a gwerthusiadau ag ymchwil a damcaniaethau sy'n ymwneud ag addysgeg a dysgu.

### Cam 2

*Ffocws:* Cyfnerthu ymhellach ac adeiladu ar ymwybyddiaeth o gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol) a rheoli ymddygiad a dysgu. Dechrau deall asesu a'i effaith ar ddysgu disgyblion.

*Datblygu ymarfer:* Addysgu micro/addysgu tîm/addysgu fesul cam o dan arweiniad mentor (hyd at 30%)

*Asesiadau Cysylltiedig:* **Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgeg Rhan A Dyddlyfr Adfyfyriol.**

### Cam 3

*Ffocws:* Atgyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol)/Canolbwyntio ar gynllunio tymor byr. Dechrau adnabod ffyrdd o allu ymgorffori cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a datblygu ymwybyddiaeth o addysgeg pwnc-benodol (Astudiaethau Pwnc 1.1, Llythrennedd a Rhifedd). Adnabod y sgiliau llythrennedd a rhifedd personol sydd angen eu datblygu

*Datblygu ymarfer:* symud ymlaen fel bo'n briodol o ficroaddysgu/addysgu fel tîm i fwy o annibyniaeth a gwersi llawnach (hyd at 30%).

*Asesiadau Cysylltiedig:* **Paratoi ar gyfer asesiad PP Rhan C - Portffolio Cynllunio a Chlориannu**

### Cam 4

*Ffocws:* Atgyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol)/

*Datblygu ymarfer:* Annibyniaeth a gwersi llawnach (30%). Cynlluniau gwersi i ganolbwyntio ar agweddau o fewn Astudiaethau Pwnc 1.1 Datblygu Llythrennedd a Rhifedd ymhellach

*Asesiadau Cysylltiedig:* **Gweithredu Aseiniad A1.3 Rhan B: Gweithgaredd Dyniaethau**

*Asesiadau Cysylltiedig:* **Paratoi ar gyfer asesiad PP Rhan C: Portffolio Cynllunio a Gwerthuso**

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos cynllun manwl pedwar cam cyntaf y Modiwl Profiad Ysgol

### Lleoliad

Ysgol arweiniol
Ysgol rwydwaith
Sefydliad AU

### Byrfodau

MARh - Mentor Arweiniol Rhwydwaith

PF - Prif Fentor

MY - Mentor Ysgol

FfAA - Ffurflen Asesu Addysgeg

APY - Adroddiad Profiad Ysgol

MDaPh - Maes Dysgu a Phrofiad

## Cam 1 Wythnos 1

Cyn Cam 1 cynhelir seminar dulliau ymchwil a fydd yn disgrifio'r canlynol: sut mae arsylwi; sut mae gwranddo; beth i chwilio amdano; gweithio'n foesebol; natur tystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth; cadw dyddlyfr. **Oni nodir fel arall, bydd yr holl arsylwadau a'r cyfleoedd addysgu'n digwydd yn y cyfnod sylfaen.**

<p><b>Croeso</b> a diogelu hanfodol (MARh):</p> <p><b>Seminar (MARh):</b> Adfyfyrion ar gynnwys allweddol y SAU a chyflwyno trosolwg o'r cam cyntaf gyda ffocws ar ffyrdd o arsylwi a phedwar diben dysgu. Enghreifftiwch y pedwar diben. Trafodwch sut mae arsylwi (adeiladu ar y seminar ymchwil)</p> <p><b>Gweithgaredd:</b> Arsylwch am 2-3 awr ar draws yr ystod oedran 4-11 gan wneud nodiadau yn y <b>Dyddlyfr Proffesiynol</b></p> <p><b>Adfyfyrion:</b> Dychwelyd ar gyfer y cyfarfod llawn a hwylusir gan yr MARh. Mae'r MARh yn modelu adfyfyrion effeithiol ac yn atgoffa'r AC o ddefnydd y Dyddlyfr.</p>	<p><b>Croeso gan y Pennaeth a diogelu hanfodol (PF)</b></p> <p><b>Gwersi'r bore</b></p> <p>Arsylwi <b>dosbarth cyfan</b> (gan ddilyn y model a welir yn yr ysgol arweiniol) gyda ffocws ar lafaredd/sgwrs (sgwrs athro, sgwrs â disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion). Nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p>	<p><b>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</b></p> <p><b>Gwersi'r bore</b></p> <p>Arsylwi <b>dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar lafaredd/sgwrsio (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</b></p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p>	<p><b>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</b></p> <p><b>Gwersi'r bore</b></p> <p>Arsylwi <b>grŵp bach</b> gan ganolbwyntio ar sgiliau llythrennedd ehangach (darllen ac ysgrifennu) a chanolbwyntio'n fanylach ar sgwrs disgybl-disgybl.</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p>	<p><b>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</b></p> <p><b>Gwersi'r bore</b></p> <p>Arsylwi <b>grŵp bach</b> a'r ffocws ar sgiliau llythrennedd ehangach (darllen ac ysgrifennu) a chofnodi'r hyn y mae'r dysgwyr yn ei wneud (gweithredoedd, rhyngweithio, gweithgareddau, ymgysylltu). Parhau i nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p>
	<p><b>Prynhawn</b></p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cynorthwydd Dysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd</p> <p><b>Adfyfyrion:</b> Ar ddiwedd pob dydd bydd hyfforddeion yn adfyfyrion mewn grwpiau/parau ar y dysgu a arsylwyd ganddynt</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cynorthwydd Dysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd</p> <p><b>Adfyfyrion:</b> Ar ddiwedd pob dydd bydd hyfforddeion yn adfyfyrion mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cynorthwydd Dysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd</p> <p><b>Adfyfyrion:</b> Ar ddiwedd pob dydd bydd yr Hyfforddeion yn adfyfyrion mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Sesiwn o dan arweiniad Mentor</b> Cyfnod estynedig o adfyfyrion. Adolygu'r wythnos gyfan - o sgwrs i ddosbarth cyfan i weithgareddau grŵp bach</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Beth wnaethoch sylwi arno?</li> <li>Ceisiais addysgu hyn - beth ddigwyddodd?</li> <li>Sut oedd y disgyblion yn siarad?</li> <li>Beth wnaethon nhw mewn grwpiau?</li> <li>Sut wnaethon nhw rhyngweithio?</li> </ul> <p>Mae'r AC yn postio eu hadfyfyrnodau wythnosol (200 gair) ar y PLP.</p>

Mae'n bwysig nodi fod y gweithgareddau a awgrymwyd yn dibynnu ar ofnydd y mentor a'r athrawon yn yr ysgol ac felly mi fydd yna hyblygrwydd yn y drefn fydd y gweithgareddau hyn yn cael eu darparu a'u gwneud

## Cam 1 Wythnos 2

<p><b>Aros yn y dosbarth gwreiddiol Gwersi'r bore</b></p> <p>Arsylwi <b>dosbarth cyfan</b> gyda ffocws ar lafaredd/sgwrs <b>A</b> rhifedd.</p> <p>Sut mae'r disgyblion yn dysgu mathemateg?</p> <p>Sut maen nhw'n siarad amdano? Cyswllt â modelau damcaniaethol o ddysgu mathemateg.</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p>	<p><b>Aros yn y dosbarth gwreiddiol Gwersi'r bore</b></p> <p>Arsylwi <b>un disgybl</b> (wedi'i nodi yn dilyn edrych ar y Proffil Cyfnod Sylfaen) gyda ffocws ar lafaredd/sgwrs <b>A</b> rhifedd.</p> <p>Sut mae'r ymddygiad, y sgwrs a'r dysgu a arsylwyd yn cymharu â'u cyrhaeddiad yn y Proffil?</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p>	<p><b>Aros yn y dosbarth gwreiddiol Gwersi'r bore</b></p> <p>Arsylwi <b>grŵp bach</b> a'r ffocws ar lafaredd/sgwrs <b>A</b> rhifedd.</p> <p>Sut mae'r ymddygiad, y sgwrs a'r dysgu a arsylwyd yn cymharu â'u profion sylfaenol?</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p>	<p><b>Aros yn y dosbarth gwreiddiol Gwersi'r bore</b></p> <p>Arsylwi <b>grŵp bach</b>.</p> <p>Sut mae'r ymddygiad, y sgwrs a'r dysgu a arsylwyd yn cymharu â'u cyrhaeddiad yn y Proffil Cyfnod Sylfaen?</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p>	<p><b>Sefydliad AU</b></p> <p><b>Gweithdy Adfyfyriol</b></p> <p><b>AC</b> yn cyflwyno eu harsylwadau ar y cysylltiadau rhwng arsylwadau'r Proffil Cyfnod Sylfaen a chyrhaeddiad y disgyblion yn ddiennw.</p> <p>Ar ôl trafod noder themâu cyffredin a gwahaniaethau amrywiol rhwng yr ysgolion.</p> <p><b>Seminar</b></p> <p>Mae'r tiwtor yn cyflwyno damcaniaethau addysgu a dysgu sy'n gysylltiedig ag arsylwadau'r AC (bwydo ymlaen at draethawd yr Astudiaethau Craidd)</p> <p><b>Mae'r hyn yn enghraifft o dystiolaeth y gellir ei defnyddio i gefnogi'r aseiniad llythrennedd a rhifedd.</b></p> <p><b>AC</b> yn nodi tystiolaeth i'w dadansoddi yn yr aseiniad (llythrennedd a rhifedd)</p>
<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Sesiwn o dan arweiniad mentor</b> yn cyflwyno Proffiliau Aesu Cyfnod Sylfaen. Sut maen nhw'n cael eu creu a sut mae'r ysgol yn eu defnyddio. Gydag arweiniad y mentoriaid AC nodwch un plentyn i'w arsylwi'n fanwl ar gyfer y diwrnod canlynol</p> <p><b>Adfyfyrio:</b> Mae hyfforddeion yn dadansoddi'r proffiliau ac yn eu cymharu â'r hyn maen nhw wedi'i weld yn y dosbarth. Maent yn trafod ac yn cymryd nodiadau yn y dyddlyfr.</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p>Cefnogi dysgu <b>yn nosbarth yr AC arall</b>, a chymryd rôl y Cymhorthydd Dysgu o dan gyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd</p> <p><b>Adfyfyrio:</b> Mae'r ddau AC yn cymharu'r ddwy ystafell ddosbarth, gan dynnu sylw at wahaniaethau y gellir eu priodoli i oedran neu ddysgu blaenorol</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p>Cefnogi dysgu <b>yn nosbarth yr AC arall</b>, a chymryd rôl y Cymhorthydd Dysgu o dan gyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd</p> <p><b>Adfyfyrio:</b> Mae'r ddau AC yn cymharu'r ddwy ystafell ddosbarth, gan dynnu sylw at wahaniaethau y gellir eu priodoli i oedran neu ddysgu blaenorol</p>	<p><b>O dan arweiniad Mentor: Adfyfyrio Estynedig</b></p> <p>Mae AC yn paratoi cyflwyniad adfyfyriol ar gyfer adolygiad SAU gan ddefnyddio cwestiynau Ebbutt.</p> <p>Mae'r AC yn crynhoi'r llythrennedd a'r dysgu mathemategol a arsylwyd dros y pythefnos.</p> <p><b>Adfyfyrio estynedig:</b> Mae AC yn myfyrio ynghylch y cysylltiadau sydd rhwng cyrhaeddiad y disgyblion yn y Proffil Cyfnod Sylfaen a'u harsylwadau eu hunain ac yn paratoi ar gyfer eu cyflwyniad yn y SAU.</p>	





## Cam 2 Wythnos 1

### Cyn Cam 2 bydd sesiwn SAU yn cyflwyno'r Pasbort Dysgu Personol

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p><b>Seminar (MARh):</b> Adolygu cam 1 (arsylwi dysgu) Newid y ffocws i weithredoedd yr athro. Sut ydyn ni'n creu'r amgylchedd gorau ar gyfer dysgu (y 4 pwrpas)? Sut ydyn ni'n rheoli'r amgylchedd? Ystyriwch ymddygiadau a gweithredoedd athrawon. Sut mae athrawon yn asesu dysgu (cyfeiriwch yn ôl at y traethawd)?</p>	<p><b>Bore Arsylwi</b> Gwersi yn y cyfnod sylfaen.</p> <p>Canolbwyntio ar ddechreuwyd/dechreuadau; trawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ymgysylltu; Asesu ar gyfer Dysgu AagD (cyfeiriwch at y traethawd). Parhau i nodi enghreifftiau posibl o'r edwar diben dysgu.</p>	<p><b>Bore Arsylwi</b> Gwersi yn y cyfnod sylfaen.</p> <p>Canolbwyntio ar ddiwedd glo gwersi, yn enwedig Asesu ar gyfer Dysgu. Parhau â thrawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ennyn diddordeb; Parhau i nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p>	<p><b>Bore Addysgu mewn tîm</b></p> <p>Gwers ar lythrennedd a gynlluniwyd ac a gyflwynir gan y <b>mentor*</b>; AC yn cael rôl gefnogol allweddol, fel cymryd grŵp o ddysgwyr; gweithredu fel Cymhorthydd Addysgu gydag unigolion.</p> <p><i>*Amser mentor wedi'i ddyrannu i rannu cynlluniau gwersi a allai fod yn fwy manwl na'r arfer.</i></p>	<p><b>Bore Addysgu mewn tîm</b></p> <p>Gwers ar rifedd/mathemateg a gynlluniwyd gan y <b>mentor*</b>; AC yn cael rôl gefnogol allweddol, fel cymryd grŵp o ddysgwyr; gweithredu fel Cymhorthydd Addysgu gydag unigolion.</p> <p><i>*Amser mentor wedi'i ddyrannu i rannu cynlluniau gwersi a allai fod yn fwy manwl na'r arfer.</i></p>
<p><b>Gweithgaredd:</b> Arsylwi am 1 awr o fewn yr ystod oedran 4-11 gan ganolbwyntio ar reoli dysgu ac ymatebion i ymddygiad oddi ar y dasg a'r rhyngweithio rhwng y disgybl/athro/athrawes</p> <p><b>Dyddlyfr: recordio a dadansoddi</b> (Beth ddigwyddodd? Pam y digwyddodd? Cyfle i ddefnyddio dadansoddiad ABC)</p> <p><b>Adfyfrio:</b> Dychwelyd ar gyfer y cyfarfod llawn a hwylusir gan yr MARh</p>	<p><b>Cefnogi dysgu</b> gan weithredu fel Cymhorthydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Wrth gefnogi disgyblion, nodwch pa <b>MDaPh/maes dysgu</b> sy'n cael sylw. Nodi'r wybodaeth bwnc y mae'r disgyblion yn ei chaffael a'r addysgeg sy'n cael ei harfer gan yr athro. (Beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu?)</p> <p><b>Adfyfrio:</b> Ar ddiwedd pob dydd bydd yr Hyfforddeion yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi</p>	<p><b>Cefnogi dysgu</b> gan weithredu fel Cymhorthydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Wrth gefnogi disgyblion, nodwch pa <b>MDaPh/maes dysgu</b> sy'n cael sylw. Nodi'r wybodaeth bwnc y mae'r disgyblion yn ei chaffael a'r addysgeg sy'n cael ei mabwysiadu gan yr athro. (Beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu?)</p> <p><b>Adfyfrio:</b> Ar ddiwedd pob dydd bydd yr hyfforddeion yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi</p>	<p><b>Prynhawn- Arsylwi</b> dosbarth gwahanol <b>(Yn CA2 lle bo hynny'n bosibl)</b></p> <p>Canolbwyntio ar ddechrau a diwedd gwersi, yn enwedig Asesu ar gyfer Dysgu (AagD). Parhau â thrawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ennyn diddordeb;</p> <p><b>Adfyfrio:</b> Ar ddiwedd pob dydd bydd yr hyfforddeion yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi</p>	<p><b>Prynhawn O dan arweiniad Mentor:</b> Adfyfrio Estynedig Ar y ddwy wers a gefnogir gan yr AC (<b>Astudiaeth Gwers</b>) : Beth a ddysgwyd? Sut wnaeth y mentor asesu'r dysgu? A oedd y gweithgareddau'n effeithiol? A oedd angen rhoi sylw i unrhyw ymddygiadau oddi ar y dasg? Beth oedden nhw? Beth fyddai'r mentor yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf? Mae'r AC yn postio eu hadfyfyrdodau wythnosol (200 gair) ar y fforwm ar-lein Profiad Ysgol (PY) ac yn gwneud sylwadau ar ddau gyfraniad arall.</p>

## Cam 2 Wythnos 2

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p><b>Bore</b>  <b>Addysgu mewn tîm</b>            Gwers sy'n seiliedig ar rifedd wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan y <b>mentor*</b>; Yr AC yn cael mwy o gyfrifoldeb i addysgu grŵp bach o ddysgwyr;</p> <p><b>Adfyfrio ar unwaith:</b> AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu</p>	<p><b>Bore</b>  <b>Addysgu mewn tîm</b>            Gwers ar rifedd wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan y <b>mentor*</b>; AC yn cael mwy o gyfrifoldeb i ddysgu grŵp bach o ddysgwyr;</p> <p><b>Adfyfrio ar unwaith:</b> AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi dysgu</p>	<p><b>Microaddysgu 1</b>            Nodi grŵp o ddysgwyr gyda'r mentor ymlaen llaw. Cynllunio ac addysgu gweithgaredd rhifedd penodol</p> <p><b>Adfyfrio ar unwaith:</b> AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu</p>	<p><b>Microaddysgu 2</b>            Nodi grŵp o ddysgwyr gyda'r mentor ymlaen llaw. Cynllunio ac addysgu gweithgaredd rhifedd penodol</p> <p><b>Adfyfrio ar unwaith:</b> AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu</p>	<p><b>Sefydliad AU</b>  <b>Adfyfrio:</b>            Mae AC yn cyfleu eu myfyrdodau. Yn ogystal, maent yn cysylltu theori ag ymarfer, gan adeiladu ar y deunydd a gyflwynwyd i'w haseiniad cyntaf ar Asesu ar gyfer Dysgu AagD (Craidd)</p> <p>Sicrhewch fod pob AC yn barod i gyflwyno PP Rhan B - cofiwch eu hatgoffa ynglŷn â meini prawf a natur y dystiolaeth a'r dadansoddiad sy'n angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad</p> <p><b>Cysylltwch Ymlaen</b> at y cam nesaf (disgwyliadau o ran y ffocws ar y Dyniaethau). Cyswllt â Darlithoedd y Dyniaethau.</p>
<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Y Mentor</b> yn briffio'r AC ar y dasg microaddysgu. Rhoddir cefnogaeth ond rhaid i'r hyfforddai gynllunio sut y bydd y dasg yn cael ei chyflawni</p> <p>Mae'r AC yn dechrau cynllunio'r tasgau microaddysgu</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Mentor yn gwirio cynlluniau'r microaddysgu</b></p> <p>AC yn cwblhau'r gwaith o gynllunio'r dasg microaddysgu</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Arsylwi</b> gwersi yn y cyfnod iau.</p> <p>Ffocws AagD (cyfeiriwch at y traethawd). Edrych ar y: cwestiynu; strategaethau; ymatebion y disgyblion; ymatebion yr athrawon. Nodi gwahaniaethau rhwng arddulliau addysgu'r ddau gam</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Y Mentor</b> yn briffio'r AC ar gynllun gwaith y Cam nesaf, gan dynnu sylw at</p> <p><b>Adfyfrio Estynedig (Prynhawn)</b>            Yr AC yn paratoi cyflwyniad adfyfyriol ar gyfer adolygiad nesaf y Sefydliad AU, gan ddefnyddio cwestiynau Ebbutt a'r Craidd Cyfarwyddol. Maent yn crynhoi llythrennedd a dysgu mathemategol.</p>	

## Cam 3 Wythnos 1

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p><b>Bore</b>  <b>Seminar:</b> Canolbwyntio ar gynllunio - adolygu Cam 2 Modelu a rhannu cynllun gwers generig. Rhoi sylw i CTG a gwahaniaethu; nodi ffyrdd o wneud y pethau hyn yn gysylltiedig ag ymarfer sy'n gydnabyddedig o ran theori/ymchwil.</p> <p><b>Gweithgaredd:</b> Arsylwch am 1 wers gan wybod cynllun yr athro/athrawes. Anodi'r cynllun a thynnu sylw at y gwahaniaeth yng ngweithrediad y wers gyda'i gychwyn. Canolbwyntiwrch ar CTG a gwahaniaethu.</p> <p><b>Adfyfrio</b>  Pam oedd y wers yn wahanol i'r cynllun? Sut gwnaeth yr athro asesu'r dysgu ac o bosib addasu'r wers?</p>	<p><b>Bore</b>  Ewch i'r dosbarth gwreiddiol</p> <p><b>Arsylwi</b>  Nodi cynlluniau posibl ar gyfer y CTG, a gwahaniaethu. Gwneud cysylltiadau rhwng CTG, gwahaniaethu a'r pedwar pwrpas.</p> <p><b>Adfyfrio</b>  Dylai cofnodion y dyddlyfr gysylltu'r deilliannau a arsylwyd, gweithgareddau a deilliannau â chynlluniau posibl e.e. "Sut fyddwn i wedi cynllunio ar gyfer hyn?"  Defnyddiwch y <b>Craidd Cyfarwyddol</b> i ddadansoddi'r ystafell ddosbarth</p>	<p><b>Bore</b>  Ewch i'r dosbarth gwreiddiol</p> <p><b>Microaddysgu 1</b>  Dysgu'r gweithgaredd a gynlluniwyd</p> <p><b>Adfyfrio</b>  Dylai cofnodion y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y ficro-wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig.</p>	<p><b>Bore</b>  Ewch i'r dosbarth gwreiddiol</p> <p><b>Arsylwi</b> gwers  Trafod y wers gyda'r mentor/athro/athrawes.</p> <p><b>Cynlluniwrch</b> y wers gan edrych yn ôl a ddefnyddio ffurflen barod CABAN a nodi'r agweddau allweddol sy'n angenrheidiol i'r wers (gan gyfeirion ôl at ddydd Llun).</p>	<p><b>Bore</b>  Ewch i'r dosbarth gwreiddiol</p> <p><b>Tîm yn dysgu</b> gwers Llythrennedd/Rhifedd</p> <p><b>Athro/mentor</b> yn briffio'r AC ac mae ganddo/ganddi fewnbwn sylweddol i gynlluniau'r ddwy wers gyntaf yn wythnos 2 (Ile bydd AC yn dysgu dwy wers mewn tîm)  Rhaid i AC gynllunio eu gweithredoedd eu hunain yn ogystal â rôl gefnogol eu cydweithiwr</p> <p><b>Mae'r Mentor</b> yn gwirio'r Pasbort Dysgu Personol ac yn gwneud un sylwad byr ar y Gweithlyfr Safonau</p>
<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Diwylliant, Iaith ac Addysgeg Cymru</b>  <i>Sesiwn yn yr ysgol 1</i> (Gweler dogfennaeth benodol y cwrs). Sesiwn a gyflwynir gan fentor y Gymraeg.</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p>Nodi grŵp o ddysgwyr gyda'r athro/athrawes/mentor ar gyfer microaddysgu yfory Cynlluniwrch y gweithgaredd (mae'n debygol y bydd y mentor yn cael y gweithgaredd/syniad gan y mentor).</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Arsylwi</b>  Canolbwyntiwrch ar wahaniaethu ar gyfer CTG a/neu faes dysgu. Nodi gwahanol dulliau o ymdrin â chynnwys gwahanol pob CTG.</p> <p><b>Adfyfrio 2</b>  Dylai'r ail gofnod ddadansoddi gwahanol addysgeg a arsylwyd.</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Arsylwi</b>  Canolbwyntio ar <i>Cymraeg Pob Dydd</i>; gweithgaredd sy'n dilyn o'r seminar.</p> <p><b>Adfyfrio</b>  Nodi agweddau allweddol ar gynllunio, gan ddefnyddio'r cynllun yn seiliedig ar arsylwi'r mentor/athro</p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Adfyfrio a chynllunio</b>  Adfyfrio ar agweddau allweddol ar gynllunio a'u gweithredu yn eu cynlluniau eu hunain. Mae AC yn postio eu myfyrdodau wythnosol gan ganolbwyntio ar gynllunio. (200 gair) i'r fforwm ar-lein Profiad Ysgol (PY) a sylwadau ar ddau gyfraniad arall.</p>

## Cam 3 Wythnos 2

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p><b>Bore</b></p> <p><b>Addysgu mewn tîm</b> Gwers Lythrennedd wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan un AC gydag ail AC yn cefnogi.</p> <p><b>Adfyfrio</b> Dylai cofnodion y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae'r AC sy'n cefnogi yn rhoi ail farn a sylwadau perthnasol.</p>	<p><b>Bore</b></p> <p><b>Addysgu mewn tîm</b> Gwers Rifedd wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan yr ail AC a'r AC cyntaf yn cefnogi.</p> <p><b>Adfyfrio</b> Dylai cofnodion y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae'r AC sy'n cefnogi yn rhoi ail farn a sylwadau perthnasol.</p>	<p><b>Bore</b></p> <p><b>Dysgu 2 wers sydd wedi'u cynllunio</b></p> <p><b>Adfyfrio</b> Dylai cofnodion y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig.</p>	<p><b>Bore</b></p> <p><b>Dysgu 2 wers sydd wedi'u cynllunio</b> Gan gynnwys un arsylwad ffurfiol (FFAA 1)</p> <p><b>Prynhawn</b></p> <p><b>Cyfarfod â'r mentor</b> i adolygu gwersi a gosod targedau ar gyfer Cam 4.</p> <p><b>Adfyfrio Estynedig (Prynhawn)</b> Yr AC yn paratoi cyflwyniad <b>adfyfiriol</b> ar gyfer adolygiad nesaf y Sefydliad AU, gan ddefnyddio cwestiynau Ebbutt a'r Craidd Cyfarwyddol.</p>	<p><b>Sefydliad AU</b></p> <p><b>Mae AC yn cyflwyno myfyrdodau ar gynllunio ac addysgu.</b> Maent yn nodi bylchau rhwng bwriadau a chanlyniadau. Maent yn rhannu profiadau cychwynnol o gyflwyno gwersi. Bwydo ymlaen i ganolbwyntio ar y dyniaethau a'r FfCD.</p> <p>Sesiynau Astudiaethau Pwnc ar weithgareddau sy'n seiliedig ar weithredu'r FfCD ym Maes Dysgu a Phrofiad y dyniaethau (MDPh).</p> <p>Rhannwch ddisgwyliadau ar gyfer <b>Aseiniad modiwl PP Rhan C - Portffolio Cynllunio a Gwerthuso</b></p>
<p><b>Prynhawn</b></p> <p>Cynllunio gwersi dydd Iau a dydd Gwener gan ymgynghori â'r <b>mentor</b></p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p>Cynllunio gwersi dydd Iau a dydd Gwener gan ymgynghori â'r <b>mentor</b></p>	<p><b>Prynhawn</b></p> <p>Dechrau cynllunio ar gyfer y cam nesaf (sy'n hanfodol gan fod yr ysgol ar gau dros hanner tymor).</p>		

## Cam 4

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p><b>Seminar</b> Cyflwyniad a disgwyliadau (addysgu ar 30%). Modelwch enghraifft o gynllunio ac addysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau <b>Arsylwi</b> gwersi y Dyniaethau <b>Adfyfrio</b> ynglŷn â chynnwys pwnc o'i gymharu, addysgeg a chynllunio. Nodi'r goblygiadau i'w hymarfer eu hunain.</p> <p><b>Prynhawn</b> <b>Diwylliant, Iaith ac Addysgeg Cymru</b> <i>Sesiwn yn yr ysgol 1</i> (Gweler dogfennaeth benodol y cwrs). Sesiwn a gyflwynir gan fentor y Gymraeg.</p>	<p>Cynllunio a chyflwyno gwersi sy'n cynnwys y CTG (30%) Cynhwyswch wers y Dyniaethau sydd hefyd yn mynd i'r afael â'r FfCD Cynllunio'n annibynnol gyda chefnogaeth mentor Parhau i gefnogi ac arsylwi, gan edrych ar y pedwar diben (ar 30%) <b>Cwblhau tasgau dilynol o seminarau Cymraeg (Cymraeg Pob Dydd a'r Cwricwlwm Cymreig).</b> Uwchlwytho tystiolaeth gynyddol i'r Pasbort Dysgu Personol. Parhau i adfyfrio mewn parau ar ddiwedd y dydd <b>Paratoi ar gyfer asesiad PP Rhan C - Portffolio Cynllunio a Gwerthuso</b></p>			<p><b>Bore</b> Arsylwi Ffurfiol (FFAA 2) <i>Gellir gosod hwn rhwng dydd Iau wythnos 1 a dydd Mawrth wythnos 2 gan ddibynnu ar anghenion yr AC ac ymrwymadau'r mentor/safonwr.</i></p> <p><b>Prynhawn</b> <b>Cyfarfod â'r mentor</b> i adolygu gwersi a gosod targedau ar gyfer Cam 4.</p> <p><b>Adfyfrio estynedig</b> Mae AC yn postio eu myfyrdodau wythnosol gan ganolbwyntio ar gynllunio. (200 gair) i'r fforwm ar-lein Profiad Ysgol (PY) a sylwadau ar ddau gyfraniad arall.</p>
<p>Cynllunio a darparu gwersi sy'n cynnwys y CTG yn annibynnol gyda chefnogaeth mentor (30%) Cynhwyswch wers y Dyniaethau sydd hefyd yn mynd i'r afael â'r FfCD <b>Cwblhau tasgau dilynol o seminarau Cymraeg (Cymraeg Pob Dydd a'r Cwricwlwm Cymreig).</b> Parhau i gefnogi ac arsylwi, gan edrych ar y pedwar diben (ar 30%) Nodi a llwytho tystiolaeth i'r Pasbort Dysgu Personol. Parhau i adfyfrio mewn parau ar ddiwedd y dydd <b>Paratoi ar gyfer asesiad PA Rhan C - Portffolio Cynllunio a Gwerthuso</b></p>			<p><b>Derbyn a thrafod APY mewn cyfarfod mentor</b> <b>Adfyfrio Estynedig (Prynhawn)</b> Yr AC yn paratoi cyflwyniad <b>adfyfiriol</b> ar gyfer adolygiad nesaf y Sefydliad AU, gan ddefnyddio cwestiynau Ebbutt a'r Craidd Cyfarwyddol.</p>	<p><b>Sefydliad AU</b> DIWRNOD CABAN CYFAN - y ddwy garfan SAU mewn un lle Adfyfrio ar Gam 4 Rhannwch ddisgwyliadau'r Pasbort Dysgu Personol Diweddarau'r Pasbort Dysgu Personol ar gyfer asesiad terfynol y PY</p>

